sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Dyfodol rhifau ffôn

## Ail ymgynghoriad

**Fersiwn anghyfrinachol – wedi'i olygu ar gyfer cyhoeddi [✂]**

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 23 Ebrill 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 2 Gorffennaf 2021

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 3

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn cynnig diwygiadau i'r rheolau sy'n llywodraethu'r defnydd o rifau ffôn yn y DU, er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd y newidiadau mawrion sy'n digwydd yn rhwydweithiau'r wlad i ystyriaeth, a'u bod yn parhau i hyrwyddo hyder defnyddwyr mewn gwasanaethau ffôn.**

Mae galwadau ffôn yn wasanaeth hanfodol i lawer o bobl a busnesau. Fodd bynnag, mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio ffonau'n newid. Mae cyfathrebu symudol ac ar-lein yn cynyddu, ac mae'r defnydd o linellau tir yn lleihau. Mae'r rhwydwaith llinellau ffôn tir yn y DU - y rhwydwaith cyfnewidfeydd ffôn cyhoeddus (PSTN) - yn dod tuag at ddiwedd ei fywyd ac yn cael ei ddisodli'n raddol. Dros y blynyddoedd i ddod, caiff galwadau llinell dir eu cario'n gynyddol dros rwydweithiau Protocol Rhyngrwyd (IP) mwy modern, gyda gwasanaethau ffôn llinell dir yn cael eu cyflwyno'n gynyddol dros gysylltiadau band eang.

Mae'r ffordd yr ydym yn talu am alwadau wedi esblygu hefyd. Mae'r system brisiau yn llawer symlach erbyn hyn, ac mae cost y rhan fwyaf o alwadau wedi'i chynnwys mewn pecynnau. Felly, pan godir tâl ar ddefnyddwyr ffôn am alwadau unigol ac nid ydynt yn disgwyl hynny, neu os nad yw'r system brisiau'n glir, gall hyn arwain at ddiffyg ffydd yn gyffredinol mewn rhifau ac, yn y pen draw, hyder gostyngol mewn gwasanaethau ffôn.

Yn erbyn y cefndir hwn, rydym wedi bod yn adolygu ein llyfr rheolau ar gyfer rhifau ffôn yn y DU - sef y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (y Cynllun Rhifau). Amlinellwyd ein hymagwedd arfaethedig at yr adolygiad hwn yn ein Hymgynghoriad Cyntaf yn 2019. Yn y cam nesaf hwn o'n hadolygiad, rydym yn disgrifio cynigion penodol i ddiwygio'r Cynllun Rhifau.

### Beth rydym yn ei gynnig

**Dileu'r rhwymedigaeth ar ddarparwyr telathrebu i ddarparu cyfleuster 'deialu lleol'**. Mae deialu lleol yn galluogi i rywun wneud galwad o un linell dir i linell dir arall yn yr un ardal heb ddeialu'r cod ardal. Mae ein hymchwil wedi nodi dirywiad mewn gwerth deialu lleol i ddefnyddwyr. O ystyried y cymhlethdod cynyddol o ddarparu hyn ar rwydweithiau seiliedig ar IP, rydym yn ystyried na chyfiawnheir y gofyniad i ddarparu'r cyfleuster hwn bellach.

**Gwahardd rhannu refeniw yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gydag unrhyw barti sy'n ffonio ar gyfer yr holl rifau daearyddol ac annaearyddol.** Pan fydd cwmni ffôn yn rhannu'r refeniw y mae'n ei dderbyn am derfynu galwad gyda'r parti sy'n ffonio, mae hyn yn rhoi ysgogiad i wneud galwadau. Dyma'r sail i gynlluniau 'arian am alwadau'. Mae'r fath gynlluniau'n codi costau ar y cwmnïau ffôn sy'n tarddu'r galwadau ac yn y pen draw gallai'r costau hyn gael eu trosglwyddo i'w cwsmeriaid. Byddai ein cynnig yn dileu'r ysgogiadau i wneud y galwadau hyn ac yn gwahardd y cynlluniau hyn.

**Cadw'r rheolau presennol ar godau ardal sy'n cyfateb i leoliad penodol.** Yn draddodiadol mae digidau cyntaf rhif ffôn llinell dir (y cod ardal) yn cynrychioli lleoliad penodol. Fodd bynnag, nid oes angen codau ardal ar dechnoleg galwadau seiliedig ar IP i ddweud wrthi ble i anfon galwad yn yr un modd ag y mae eu hangen ar y rhwydwaith ffôn traddodiadol. Nododd ein hymchwil, er bod cydnabyddiaeth o'r cysylltiad hwn rhwng codau ardal a lleoliadau daearyddol yn dirywio'n gyffredinol, ei bod yn parhau i gael ei gwerthfawrogi gan rai pobl a busnesau. Felly, rydym yn cynnig i beidio â dileu'r cysylltiad hwn. Rydym hefyd yn cynnig parhau i ganiatáu rhywfaint o ddefnydd o rifau daearyddol allan-o-ardal, er mwyn i bobl a busnesau elwa o gyfleustra defnyddio'r rhifau hyn yn fwy hyblyg.

## Camau nesaf

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 2 Gorffennaf 2021.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad yn hydref 2021 a fydd yn disgrifio ein penderfyniadau ar y cynigion ynghylch rhifau daearyddol a gwahardd rhannu refeniw gyda phartïon sy'n ffonio yn y Cynllun Rhifau.

Byddwn yn parhau â'n hadolygiad i sicrhau bod ein rheoliadau rhifau'n hybu hyder defnyddwyr. Yn y cam nesaf, byddwn yn edrych ar rôl rhifau 084 a 087 annaearyddol yn y dyfodol.